

Glas

Rhif 212

Hydref 2025

Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol



Gwilym A Roberts
Gwalch Y Pysgod
Trawsfynydd 13 Awst 2025

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn
Cysylltwch â ni trwy bwletinglas.llennatur@gmail.com

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia

Cysgod y Ddaear ar y Iloer

7 Medi 2025 - Llanfor

Del D'Aubray




20:24 7/SEP/2025

Eclips / diffyg ar y lleuad, 8.25 yr hwyr, Medi 7ed, Trefnant. Cymylau yn cilio am funud neu ddau i mi weld yr hanner olaf o'r eclips.



07 Medi 2025- Chwilio am ddiffyg y lleuad heno. Cychwyn yn Llandudno, ymlaen i Landrillo Yn Rhos a gorffen yn Llanfairfechan.

Alun Williams



Eirlys Edwards-Behi

Clipiau eraill, ar y Iloer

Diffygion Iloerol llawn o Brydain **mewn glas** (isod)

Diffygion Iloerol eraill **mewn du trwm**

Diffygion Iloerol rhannol neu anhysbys heb eu nodi yn arbennig

■ 20/3/1345 In 1345 on March 20th there was a **total eclipse of the moon** and conjunction of three major planets recorded by John of Ashendon, Oxford astronomer, who claims to have predicted Black Death from such observations...

Diary of a Parish Priest: A History of England, Andrew Sangster 2002

■ 0/2/1766 Slough In February 1776 the twenty-seven-year-old William Herschel started his first Astronomical Observation Journal. He recorded an eclipse of the moon and the hazy appearance of Venus The Age of Wonder: Richard Holmes (2009)

■ 10/9/1783 Selborne, swydd Caerwynt - **Total eclipse of the moon** Dyddiadur Gilbert White

■ 29/9/1800 Dwyrain Maldwyn Sept. 29th. 11 P. M. a lunar rainbow; and a lunar eclipse, October 2nd

■ 2/10/1800 Dwyrain Maldwynand a lunar eclipse, October 2nd..... Walter Davies Arolwg Amaeth Cymru 1810

■ 26/12/1833 Llandeilo Eclipse of the moon started at 20 past 7p.m. Continued till past 11p.m. The Diary of Thomas Jenkins of Llandeilo

■ 0/4/1884 Awstralia I witnessed a **total eclipse of the moon** at 9.20pm. It was the time predicted by the astronomers. The Diary of a Welsh Swagman

■ 4/10/1884 Pale, Bala there was a **total eclipse of the moon** this evening between half past 8 and 12 o'clock which was clearly visible, and was very curious Dyddiadur "Sporting Diary" C.E.M. Edwards, Archifdy Dolgellau Z/M/73/2 - 4

[Oes yna gysylltiad rhwng y ddau ddiffyg ym 1884?]

■ 28/1/1888 Gillingham, Dorset In the evening we had a very good sight by the eclipse of the moon. Dyddiadur Richard Llywelyn Headley

■ 13/7/1889 Awstralia Partial eclipse of the moon was grand to watch The Diary of a Welsh Swagman

■ 9/2/1906 Solihull There was a partial eclipse of the moon visible this morning a 5.57am At 8 o'clock in the evening there was a beautiful rainbow-coloured halo round the moon, unusually bright and distinct. Dyddiadur Edith Holden 1906 (The Country Diary of an Edwardian Lady 1977)

■ 2/10/1800 Llandudno Partial eclipse of the moon (7:30 p.m.). Seen from our front Doorway. Dyddiadur Harry Thomas, Nant y Gamar, Llandudno (LIGC Archifdy Conwy)

■ 28/12/1917 Avoca Obs **total eclipse of moon** (27.21 56) G.M.T. 3:20pm gwefan Old Weather

■ 8/12/1927 Fernhurst, Sussex Misty all day, so we were unable to see the eclipse of the moon. A Countrywoman's Journal. Margaret Shaw. The Sketchbooks of a Passionate Naturalist. Constable. London. 2002

■ 7/11/1938 Padog - Eclipse ar y lleuad. Dyddiadur DO Jones, Padog

■ 11/2/1952 1952 four eclipses 2 sun 2 moon i **partial eclipse of moon Feb 11th** visible ii **Total eclipse sun Feb 25th** (partial in Britain) iii **Partial of moon Aug 5th doubtful Britain** iv **Annular Eclipse Sun Aug 20th invisible Britain** Dyddiadur ALLJ, Cerrig Gweunydd, Harlech

■ 5/8/1952 1952 four eclipses 2 sun 2 moon i **partial eclipse of moon Feb 11th** visible ii **Total eclipse sun Feb 25th** (partial in Britain) iii **Partial of moon Aug 5th doubtful Britain** iv **Annular Eclipse Sun Aug 20th invisible Britain** Dyddiadur ALLJ, Cerrig Gweunydd, Harlech

■ 6/8/1998 full moon and penumbral lunar eclipse not visible from Europe Alan Pickup Guardian 31 8 98

■ 21/12/2010 Llanfairfechan **21st:** Cloud encroached during the night and the **temperature began to rise reaching a maximum for the past 24-h of -1.2C at 09 GMT.** There was no chance of seeing either the Lunar eclipse or the sun rising over the Carneddau on the Winter Solstice.

Gwefan Tywydd Don Perkins, Llansadwrn

■ 15/6/2011 Prydain June brings the first **of two total lunar eclipses** in 2011. The next one to be visible from the UK occurs in 2015 so this is well worth catching but it will not be easy as when the moon rises at 21.30 on the 15th just a few minutes before sunset, it will already be totally eclipsed. Maximum eclipse will have occurred just before at 21.13, and totality will last another half an hour ending just after ten o'clock.

Chris Lintott, The Times 31 Mai 2011

■ 14/4/2014 on the night of April 14-15, a rarer astrological occurrence will commence: **a total lunar eclipse** that should **cause the moon to turn blood-red.**

■ 8/10/2014 Early risers across much of the world are in for a treat on Wednesday morning [8 Hydref 2014] – **a total lunar eclipse**, also known as a “blood moon” due to the coppery, reddish colour the moon takes as it passes into Earth’s shadow. The total eclipse is the second of four over a two-year period that began on 15 April and concludes on 28 September 2015. **Guardian Hydref 2014**

■ 27/9/2015 De a gogledd America a Gorllewin Ewrop Super moon and lunar eclipse combine for ‘blood moon’ – pictures from around the world. Sky-watchers from North and South America to western Europe have been enjoying a rare astronomical event in which the moon has appeared to redden in the night’s sky – a so-called blood moon. It’s the result of a rare combination of an eclipse with the closest **full moon of the year.**

■ 10/2/2017 Ffrainc Une éclipse partielle de la lune des neiges aura lieu dans la nuit de vendredi à samedi ainsi que le passage d’une comète à proximité de la Terre. L’éclipse devrait être observable à partir de 23 h 55 jusqu’à 3 h 53 selon **le site Futura Sciences.**

■ 31/1/2018 Hemisffer y Gorllewin A rare celestial event will grace the skies during the coming week when a blue moon and lunar eclipse combine with the moon being at its closest point to Earth, resulting in what is being called a **“super blue blood moon”.** The trifecta will take place on 31 January and will be best visible from the western hemisphere. The last time the three elements combined at the same time was in 1866.

■ 10/1/2020 De ddwyrain Lloegr The first full moon of the decade will light up the night sky on Friday [10 Ion] and will coincide with a lunar eclipse.

Sky News

Y pry cop a newidiodd ei liw



Pos adaryddol

Mae rhain yn edrych yn ddiddorol ond dwi'n gwbl ddigynnig...

DB



Llun (15 Medi): Eirlys Edwards Behi



Maldwyn Peris

Roeddwn i'n meddwl mai hedfan o'r chwith i'r dde oeddynt - dyna pam fod i'n meddwl mai creyr oedd un ohonynt - a roeddwn yn edrych arno ar fy ffôn! Fe welaf efallai eu bod yn edrych fel gwyddau os ydynt yn hedfan o'r dde i'r chwith!

CAMELION BYD Y PRYFED COP

...ond mae'n **cymryd tridiau** iddyn nhw **newid lliw.**


Cymharwch y tri unigolyn hyn. "Unigolyn" gwahanol, o ran lliw ydyn nhw yn sicr. Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n lwcus o weld yr un cyntaf ar y 4ydd o Fedi - un unigolyn yn ddigon i mi. Wedi dweud hynny, doeddwn i ddim wedi llwyddo i weld y pedwar smotyn a dyma pam es i yno eto. Roedd 'na griw ohonyn nhw wrth ymyl Afon Llugwy deuddydd wedyn! Doeddwn i ddim wedi sylwi bod 'na rhai eraill o gwmpas. **Pryfed cop pedwar smotyn** *Araneus quadratus* Pont Cyfyng (Coedwig Gwydyr) 4 a 6 o Fedi DK

Ysglyfaeth i fele'r coed?

Gwalch y pysgod yn ysglyfaeth i fele'r coed. Oes dilema yn fan hyn...?

Bala goed ar nyth y Gweilch neithwr 31/8/25 chwilio am wy oedd wedi gladdu gan Tefi (Teifi? - enw'r gwalch)

Muttley Jones



Dim yn dda i'r Gweilch

Alan Parry Jones

Onid yw'r gweilch yn gorfod cymryd eu siawns fel pob creadur arall yn y cyffiniau - ta oes gennych chi gynllun?!

DB

Haf 2025 yn ei gyd-destun

Siart diddorol yn dangos data'r Swyddfa Dywydd i Gymru a Lloegr (ydi'r gymhariaeth rhwng y mesuriadau CET (Central England Temperature Index) a'r mesuriadau glaw a haul (glaw syndod o uchel a dim unedau) yn ddilys?

Fel sydd wedi cael ei adrodd droeon, yr hyn sydd yn nodedig am haf 2025 yw tymheredd isaf y nos (ail golofn CET Min).

A SUMMER COMPARISON

Today we have sorted a comparison chart out, so you can see where statistically Summer 2025 lies, and how it compares to other great Summers.

We used the met Offices CET data, their England Wales precipitation, and Oxfords sunshine readings, along with our own index.

CET MEAN	CET MIN	CET MAX	RAIN	SUN	INDEX
1976 - 17.72	2025 - 12.77	1976 - 23.42	1995 - 66.9	1976 - 770 hrs	1976
2025 - 17.72	2006 - 12.46	2018 - 22.76	1976 - 74.00	1975 - 760	1995
1826 - 17.61	2003 - 12.33	2025 - 22.67	1983 - 110.3	1996 - 759	1933
2018 - 17.41	1947 - 12.32	1995 - 22.64	2022 - 111.0	1995 - 758	2022
1995 - 17.33	2016 - 12.20	2022 - 22.50	1887 - 112.3	1989 - 749	1975
2006 - 17.32	2021 - 12.15	2003 - 22.22	1913 - 114.4	1959 - 743	2018
2022 - 17.30	2022 - 12.11	1899 - 22.19	1949 - 121.9	2018 - 731	1959
2003 - 17.28	1983 - 12.08	2006 - 22.19	1984 - 128.0	2025 - 728	1949
1846 - 17.09	1933 - 12.08	1911 - 22.16	2018 - 132.8	2006 - 716	1996
1983 - 17.08	2018 - 12.06	1975 - 22.07	1921 - 133.1	1949 - 714	2025
1947 - 17.05	2020 - 12.06	1983 - 22.07	1975 - 136.1	1933 - 705	1983
1937 - 17.02	1976 - 12.02	1933 - 21.95	1955 - 137.8	1994 - 695	2006
1911 - 16.99	1995 - 12.02	1947 - 21.78			
			2025 - 158.3 - 32nd		

Morfil ar draeth Cefn Sidan

Lun Heini Lucitt-Rees



Anhygoel gweld y morfil asgellog ar draeth Cefn Sidan dros y penwythnos. Yn anffodus, nes i hefyd reportio 2 forlo ifanc wedi'u golchi i fyny ar ben arall y traeth.

HL-R

Mae 'na sawl morfil asgellog, tybed pa un ydi hwn

Pan oeddwn yn gwirfoddoli efo Gwylwyr y Glannau yma ar Ynys Skye, rhan o'n dyletswyddau oedd gwarchod cyrff morfilod a'u cludo i'w claddu neu goruchwyllo y claddu yn y fan a'r lle. Trwy drugaredd, cefais erioed y fraint !

Blynnyddoedd yn ôl fe olchwyd i fynu corff Orca druan ar draeth godidog melyn Bae Sandwood, milltir neu ddau i'r de o Cape Wrath. Hyn yn y dyddiau cyn effaith twristiaith ar heddwch yr ardal. O ran diddordeb ceisiais dynu un o'i ddannedd, ond dim peryg. Methais yn lân. Dim teclyn addas i'w gael ar gylllell Byddin Swisdur.

John Jones

Taliadau'r Bwrdd Marchnata Llaeth


Cynnyrch llaeth mewn tyddyn, 1950au cynnar

Taliadau'r Bwrdd Marchnata Llaeth yn y 50au cynnar

Wedi derbyn bore yma gan gydaelod o'r gampfa (Bill Vize) dudalennau o lyfr cownts buches laeth fferm fynyddig Trosglwyn yng Ngharmel (Arfon). Mae'r ddogfen yn un hanesyddol bellach - gwartheg blith (*dairy herds*) yn gyfyngedig i ffermydd mawr yr iseldir erbyn hyn. Mae hyn bellach yn hanesyddol. Pwy glywodd am fuches laeth tua 8 buwch yn ucheldir Arfon heddiw?

TROSGLWYN FARM CARMEL 1950s	
Cash Received From Milk Marketing Board	
Price Less Transport 32 3/4 6.611 9700.115 132.9	£ 5 d
Quality Premium 2. 6.611 9700.115 132.0	15 10 2
Bonus 6.611 9700.115 132.9	19 2
October 52	£ 21.7.8
Price Less Transport 36 3/4 6.611 97 00.102 132.9	£ 5 d
Quality Premium 2 6.611 97 00.102 132.9	18 2 4
Bonus 6.611 97 00.102 132.9	17 0
November 52	£ 20.13.4
December 52	£ 3.3.4
Cash Received	33 10 11
Price Less Transport 3/2 3	3 1 2
Quality P 4	3 1 0
Bonus	39.13.1
Jan 1953	£ 5.5.0
Cash Received	55 10 2
Price Less Transport 36 3/4	5 9 2
Quality P 4	5 9 0
Bonus	69.8.4
Feb 1953	£ 50.6.0
Cash Received	50 6 0
Price Less Transport 34	5 0 8
Quality P 4	5 0 8
Bonus	60.8.0
March 1953	£ 50.10.11
Cash Received	50 10 11
Price Less Transport 30 3/4	5 11 2
Quality P 4	5 11 0
Bonus	65.13.1

Dyma lunio graff o'r data uchod



Beth sydd i gyfrif am y taliadau mwy ddechrau'r flwyddyn?

- Roedd llawer o fuchesau'n lloia yn y gwanwyn er mwyn manteisio ar borfa i gynhyrchu llaeth yn hytrach na gorfod prynu dwysfwd. Felly roedd llawer o wartheg yn hesb yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn a byddai'r MMB yn talu mwy er mwyn perswadio digon o ffermwyr i gynhyrchu llaeth pryd hynny a sicrhau cyflenwad digonol.

Jackie Wilmington

- Wedi fy magu ar dyddyn 18 acer hefo buches 7 buwch yn y '60 degau a'r '70 degau cynnar. Nhad yn gorfod rhoi gorau i gynhyrchu llaeth tua 1975 wrth i'r casgliad caniau llaeth ddod i ben a gorfodi cynhyrchwyr i ddefnyddio "bulk tank". Roedd y ffordd acw yn rhy gul i danner llaeth. Tarw potel i reoli lloia i sicrhau llaeth drwy'r flwyddyn. Tyfu ychydig o geirch a mangs (*mangolds*) yn ogystal a gwair i borthi dros y gaeaf. Prynu blawd i fwydo'n ddyddiol hefyd. Taliad yn dibynnu ar ansawdd y llaeth, ac fe brynwyd buwch Guernsey i gynyddu'r hufen yn y llaeth. Dyddiau difyr. Dim modd gwneud elw o dyddyn 18 acer bellach gwaetha'r modd.

Greta Hughes

- Yn y pumdegau mi dybiwn i fod llai o lefrith o gwmpas dros y gaeaf, gyda gwartheg yn dirwyn i ben â'u llaethiad blyneddol, gan arwain at gynydd yn y galw - "supply and demand" - felly, gyda'r maeth hefyd yn salach iddynt dros y gaeaf. Digon o borfa wedyn i'r gwartheg newydd loi (*sic*. lloia) o Fai i Awst, mwy o gyflenwad yn gwasgu'r pris i lawr... felna fu hi erioed a felna ma hi wrth ddelio â chynfnewidoldeb y farchnad! Erbyn heddiw, cysondeb yw popeth, ac mae proseswyr yn defnyddio cymhellion pris i geisio annog cyflenwad gwastad, dwn i ddim a fydda hynny'n wir adeg hynny, ond roedd yna'n sicr gadwyn o gyflogaeth yn dibynnu ar gyflenwad dibynadwy o laeth i'w cadw'n brysur yn yr amrywiol laethdai bach fydda'n dotio'r wlad adeg hynny, fydda'n cyflogi llawer o wragedd ffarm, gyrrwyr loriau'n casglu *churns* o standiau llaeth ag ati. Roedd y ffatri laeth leol yn dilyn yr ail ryfel byd yn cynnig incwm wythnosol gweddol gyson i lawer ffarmwr am y tro cynta, gyda'r Bwrdd Marchnata'n gyfrifol am hyrwyddo gwerthiant. Mae'n ddifyr gweld cymaint o gynydd sydd ym mhrys llaeth yn nhair blynedd y graff!

Alun Elidir

Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Glas



Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

GWAIR ('hay') a SULWAIR ('silage') mewn hanes

Mae rhai o'r geiriaduron Saesneg (Collins yn yr achos yma) yn cofnodi'r nifer o weithiau mae geiriau yn cael eu 'recordio' yn ôl dros flynyddoedd (dechrau efo 1708 am rhyw reswm). Meddwl fysa'r gymhariaeth yma rhwng hanes defnydd o'r gair **HAY** (gwair) a'r gair **SILAGE** (sulwair) o ddiddordeb (gan gofio cymaint o ddylanwad ar fywyd gwyllt mae'r ddau gnwd wedi ei gael.

Brysied y dydd pan


hay

HAY a SILAGE

Llun cerdyn post F. Arnfield, Dolgellau



■ Diddorol. Dwi'n synnu nad oes mwy o son am silwair ar gyfer yr amser presennol, gan fod cymaint mwy ohono yn cael ei gynhyrchu rwan. Mi fyddwn wedi disgwyl cynnydd sylweddol ganol yr wythdegau i ddechrau'r nawdegau gan mai hafau gwael yn ystod y cyfnod yma roddodd y farwol i wair traddodiadol yn ucheldir Cymru. Efallai ei fod yn ystyried y defnydd byd eang?



silage



Euros Puw

■ ■ ■ Mae'n galonogol eich bod yn edrych ar y wybodaeth yn gritigol. Sgwn i be oedd sail y ddau benllanw mawr? Dwi'n sylwi bod dau benllanw bach yn cydfynd a nhw yn y graff 'hay' tua 1948. Mi oedd yna fwy o sulwair yr adeg honno fel dwi'n deall, ond yn lle byrnau plastig dyna oes y 'silage clamps' ynte? Efallai mai hynny ysgogodd y trafodaethau? DB
Mi roedd hafau 1936 a 1946 yn hafau gwlyb iawn mae'n debyg a cafwyd gaeafau trychinebus i'w canlyn. Mae'n debyg mai hynny pedd achos y cynnydd radege honno. Dwi'n cofio John Jones Llwyngwern Llanuwchllyn yn dod i drafod ei ddyddiaduron yn yr aelwyd erstalwm ac yn nodi eu bod yn rhoi'r gwartheg i mewn ar y 3ydd o Dachwedd 1946 ac yn cael y gwair ar y 5ed!! EP

Dyddiadur George Clayton yma yn swydd Efrog (gweler y llun, tudalen nesaf) defnyddio 12 tunnelli o gerrig!
6th August 1888, 'Men busy all day making dutch barn for silo'. and later 'cutting half of flatts meadow and getting into silo'. then 'Leading from Deeholm into silo' and finally, 'Partly finished silo and got 10 loads of stones on to it'.

Dec 29th. 'Cut into silo, great success' A magazine of January 1889 was impressed:

It ought to be placed on record as an agricultural event of some importance, and as a sign that modern inventions are penetrating even to Littondale, that the first open silo was made last summer by Mr G Clayton. As the hay season was a very wet one, Mr Clayton put the grass of 7 acres into a stack and placed 12 tons of stones upon it, and then the whole was covered with a wooden roof. For several months the heat generated by the green grass was very great, but at last it cooled down, and when cut in December the material was found to be sweet and excellent in quality, and is greedily devoured by the cattle.

Richard Paul

■ Mae'n amlwg bod sulwair yn hŷn nag ydyn ni'n feddwl. Gan fod y dechnoleg yn gymharol syml, dwi'n cymryd mai'r rheswm dydio ddim wedi cael ei fabwysiadu ar raddfa fawr llawer ynghynt yw bod gwair gwlyb yn rhy drwm i geffyl ei dynnu ar drol. Tybed oedd pobl fel dy Mr. Clayton yn ffermwr cyfoethog (mae'r 'Mr.' yn awgrymu ei fod o) oedd efo trol dau geffyl a llawer o weision. I ddod yn gnwd mwy cyffredinol fasa rhaid aros tan y 20g. a dyfodiad y tractor. Wyt ti'n cytuno? DB

■ ■ ■ 'Dan ni yn ffodus bod llyfr or enw 'littondale life' wedi cael ei sgwennu yn 1997 a wedi defnyddio hen dyddiadur gamekeeper lleol i gael ffeithia. Tydwi ddim yn gwobod pwy sydd eiddo'r dyddiadur. Dyma lun o MR Clayton o'r llyfr a cytuno bod o yn edrach mwy fel ffermwr cyfoethog na ffermwr tlawd fel rhan fwya ohona ni rwan RP

[asset rich – cash poor? DB]

Mae'r ddau benllanw cydamserol bychain yma (blwch gwyrdd ar y graff uchod) yn nodi mwy o gofnodion 'hay' a 'silage' yng nghylchgronnau a llyfrau'r dydd, yn awgrymu trafodaeth a sgwrs 'cenedlaethol' yn digwydd tua'r 50au. Ai dyma'r pwynt tipio, pan newidiodd y drefn (yn Lloegr o leiaf) o gywain gwair i gywain sulwair? Siawns nad oedd hi'n bosibl cywain sulwair ar raddfa gyda marchnerth ceffyl? Onid y tractorau pwerus oedd yn bennaf gyfrifol am y twf? DB

GWAIR a SULWAIR (parhad)



Group including, at back: James Hammond and George Clayton (bearded), Annie Hammond seated (2), Mr Hammond, and on the ground Madge Hammond on right.

Postiad diweddar:

Diddorol fyddai cael eich barn ar y dylanwad ar fywyd gwyllt a'i resymeg am ba newidiadau eraill ddigwyddodd yn yr un cyfnod? Heb os y newid yn nhywydd yr hafau ar pwysau ar golli staff ar ffermydd newidiodd y mwyafrif a wair i silwair.

Rhodri Jones

■■■ ... a thrai y drefn cydweithedol rhwng ffermydd cymdogol? Dyma ddetholiad o newidiadau yn sgil twf sulwair (ond efallai bod eraill mwy cudd sydd yn ganlyniad I bryfaid sy'n byw ar wair fethu a chyflawni eu cylch bywyd oherwydd cynaeafau amlach - a allai arwain at lai o fwyd I wenoliaid, ystlumod ayb.)

The root of the problem is complex. Farming practices such as running heavy machinery down fields to cut grass for silage are partly to blame for the decline. The machines chop up the eggs and chicks hidden in the grass. (The Guardian - Farming Practices)

Glowworms still shine their lights on a warm June evening, most often on rough, calcium-rich chalk and limestone grasslands, in churchyards, railway embankments and even on the edge of London. But their populations have fallen rapidly in modern times along with most other common-and-garden insects. Use of pesticides, taking multiple cuts of meadows for silage rather than a single annual hay cut, tidying up gardens, global heating and droughts reducing snail populations – all have contributed to the loss of glowworms. (The Guardian - Glow Worms)

Unfortunately, the intensification of farming has meant the traditional annual hay-cut in July – which enabled some plants to flower again in September – has been replaced with multiple cuts for silage throughout the growing season, reducing the supply of late flowers. And previously untidy, uncut field margins – another source of late nectar and nesting grounds – have been cultivated. It means there is no space for the shrill carder. (The Guardian - Carder Bees)

*Cutting pastures for silage and the loss of scrubby cover has decimated populations of the migratory bird, which once kept country people awake at night with the male's repetitive, mechanical-sounding calls, which bequeathed the bird its scientific name, *Crex crex*. (The Guardian - Corncrakes)*

While hare numbers are in decline nationally, they have been slowly increasing here in the vale. Changes in land management practices have created better habitats, especially as several farms have abandoned intensive dairy production and the relentless spring silage cutting that entails. (The Guardian - Hare Numbers)

Byrnau sulwair yn Waunfawr heddiw




Morlun Swnt Enlli



Y trai yn tynnu trwy Swnt Enlli, 12ed Medi, 2025 Enlli'n ymddangos fel carreg mewn afon hefo'r dŵr yn llifo o'r dde i'r chwith - dŵr hegr ar y dde a dwr cymharol llonydd ar y chwith o dan Mynydd Enlli. Greta Hughes

■ Dwi'n tybio mai hyn sy'n gwneud y Swnt yn lle mor beryg i hwyllo/ nofio.

Nerys Evans



CASGLIAD MEDI 2025



Cynffon Twrci
Trametes versicolor



Ysgwydd fawr
Miripilus giganteus



Cap tyllog brithgoch
Boletus luridiformis




Boled rhydlyd
Xerocomus ferrugineus



Eirin a chwstard
Tricholomopsis rutilans



Botwm Jeli Ffawydd
Neobulgaria pura




Clust ysgyfarnog
Otidea onotica



lâr y coed
Grifola frondosa



Corwystrysen feddal
Crepidotus mollis



Cap tyllog poeth
Chalciporus piperatus



Cap melinydd
Clitopilus prunulus



Pastwn pigfain
Clavaria acuta